# Rhaglen Gyflawn

**Gwasanaeth Democratiaeth**
Swyddfa'r Cyngor
CAERNARFON
Gwynedd
LL55 1SH

Cyfarfod

**PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH**

Dyddiad ac Amser

**1.00 y.h., DYDD MAWRTH, 15FED TACHWEDD, 2022**

Lleoliad

**Cyfarfod Rhithiol - Zoom**

I gael mynediad cyhoeddus i'r cyfarfod, cysylltwch â ni.

Pwynt Cyswllt

**Sioned Mai Jones**

**01286 679665**

**sionedmaijones@gwynedd.llyw.cymru**

(Dosbarthwyd Dydd Llun, 7 Tachwedd 2022)

## PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

**AELODAETH (15)**

### Plaid Cymru (9)

Y Cynghorwyr

Annwen Hughes
Olaf Cai Larsen
Gwynfor Owen
Arwyn Herald Roberts
Sedd Wag
Linda Ann Jones
Edgar Wyn Owen
Llio Elenid Owen
Beca Roberts

### Annibynnol (5)

Y Cynghorwyr

Anwen J. Davies
Eryl Jones-Williams
John Pughe
Anne Lloyd-Jones
Dewi Owen

### Llafur/Rhyddfrydol (1)

Y Cynghorydd Stephen Churchman

### Aelodau Ex-officio

Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor

# R H A G L E N


## 1. YMDDIHEURIADAU

I dderbyn unrhyw ymddiheuriad am absenoldeb.

## 2. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

I dderbyn unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 3. MATERION BRYS

I nodi unrhyw eitemau sydd yn faterion brys ym marn y Cadeirydd er mwyn eu hystyried.

## 4. COFNODION — 4 - 9

Bydd y Cadeirydd yn cynnig bod cofnodion y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor hwn a gynhaliwyd ar 5 Gorffennaf, 2022 yn cael eu harwyddo fel rhai cywir.

## 5. PENNAETH GWASANAETHAU DEMOCRATAIDD — 10

I bennodi un o swyddogion i swydd statudol Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd.

## 6. CEFNOGAETH I GYNGHORWYR — 11 - 18

I nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad ar y gefnogaeth sydd ar gael i Gynghorwyr.

## 7. DEDDF LLYWODRAETH LEOL AC ETHOLIADAU (CYMRU) 2021 — 19 - 26

I dderbyn y diweddariad o'r camau gweithredu yn unol â gofynion y Ddeddf ac i argymell y Cynllun Deisebau i'r Cabinet. Hefyd i adnabod 2 neu 3 aelod i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu protocol 'Cymorth a Gwasanaethau Ymchwil i Gynghorwyr'.

## 8. DARPARIAETH DYSGU A DATBLYGU I AELODAU — 27 - 34

I roi diweddariad o'r ddarpariaeth *Dysgu a Datblygu* i Aelodau, gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau.

## 9. ADRODDIAD DRAFFT PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL — 35 - 39

I ofyn i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am:

- sylwadau ar gyfer llunio ymateb i ymgynghoriad adroddiad drafft Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
- sylwadau ar y trefniadau i adolygu uwch gyflogau.

# PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH
# DYDD MAWRTH, 5 GORFFENNAF 2022

**YN BRESENNOL:**

**Cynghorwyr:**
Dewi Owen (Cadeirydd), Stephen Churchman, Anwen J. Davies, Anwen Hughes, Eryl Jones-Williams, Anne Lloyd Jones, Linda Ann Jones, Olaf Cai Larsen, Edgar Wyn Owen, Gwynfor Owen, Llio Elenid Owen, John Pughe a Beca Roberts.

**Swyddogion:** Vera Jones (Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith), Geraint Owen (Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol), Annes Sion (Arweinydd Tîm Democratiaeth) a Sioned Mai Jones (Swyddog Gwasanaethau Democratiaeth).

## 1. ETHOL IS-GADEIRYDD

Etholwyd y Cynghorydd John Pughe yn Is-Gadeirydd y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am y flwyddyn 2022/23.

## 2. YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriad gan y Cynghorwyr Arwyn Herald Roberts ac Elwyn Jones (aelod ex-officio).

## 3. DATGAN BUDDIANT PERSONOL

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant personol.

## 4. MATERION BRYS

Ni chodwyd unrhyw faterion brys.

## 5. COFNODION

Derbyniodd y Cadeirydd gofnodion cyfarfod blaenorol y pwyllgor hwn a gynhaliwyd 17 Chwefror, 2022 fel rhai cywir.

## 6. RÔL Y PWYLLGOR GWASANAETHAU DEMOCRATIAETH

**PENDERFYNIAD**
**Derbyn y wybodaeth am rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth.**

Cyflwynwyd gwybodaeth gan Bennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol am rôl y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth gan fanylu ar swyddogaethau'r Pwyllgor. Nodwyd bod adolygu'r gefnogaeth sydd ar gael i'r Pennaeth Gwasanaethau Democratiaeth allu cyflawni gofynion y rôl wedi bod yn brif ffocws trafodaethau'r Pwyllgor hwn yn hanesyddol.

Manylwyd ar y ddarpariaeth a gynhigiwyd i Aelodau dros gyfnod y Cyngor diwethaf a'r datblygiadau gafodd eu cyflawni megis gwelliannau i'r Fewnrwyd Aelodau a'r gwaith oedd ynghlwm â chyfarfodydd rhithiol ac aml-leoliad. Soniwyd am y mewnbwn a dderbyniwyd gan

Aelodau i'r trefniadau ar gyfer yr Etholiad a'r trefniadau croesawu Aelodau newydd cyn symud ymlaen i ragweld materion fydd yn derbyn sylw dros y blynyddoedd nesaf gan y Pwyllgor. Rhagwelir y bydd ffocws eleni ar y rhaglen hyfforddiant a chyflwyniadau er mwyn sicrhau bod Aelodau yn derbyn y wybodaeth angenrheidiol i gyflawni eu rôl.

Tynnwyd sylw at y gwaith fydd yn parhau er mwyn sicrhau cynnal cyfarfodydd aml-leoliad yn ogystal â gofynion newydd y Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 sydd yn rhoi pwyslais ar we-ddarlledu cyfarfodydd.

I gloi soniwyd am rai materion fydd yn cael eu trafod yng nghyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn ym mis Tachwedd a phwysleisiwyd pwysigrwydd cynnal deialog barhaus â'r Aelodau er mwyn sicrhau bod materion perthnasol yn derbyn sylw. Atgoffwyd yr Aelodau eu bod nhw'n cynrychioli gweddill Cynghorwyr Gwynedd ac yn llais iddynt yn y Pwyllgor hwn. Anogwyd yr Aelodau i gyflwyno unrhyw sylwadau neu bryderon rhwng cyfarfodydd.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:
- Holwyd am fanylion ynglŷn â phwynt 2.10 o'r adroddiad sef y ddyletswydd i gyhoeddi cynllun deisebu. Gofynnwyd a oedd modd cynnwys hyn fel eitem ar agenda'r cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor.
- Awgrymwyd y dylid cynnwys Cynghorwyr profiadol yn y sesiynau anffurfiol i Gynghorwyr newydd fel eu bod yno i allu ateb cwestiynau a gweithredu fel mentor.
- Amlygwyd pwysigrwydd diogelwch yn enwedig ymysg Cynghorwyr benywaidd.
- Gofynnwyd a oedd modd darparu adroddiad neu dempled o sut i ymateb i gwynion yn effeithiol yng nghyfarfod nesaf o'r Pwyllgor hwn.
- Cwestiynwyd pam bod Aelodau yn methu argraffu o'u dyfeisiadau newydd.

Mewn ymateb i'r sylwadau:
- Eglurwyd mai gofyniad yn y Ddeddf ydyw i gyhoeddi canllawiau ar gyfer sut i gyflwyno deisebau. Nodwyd y bydd grŵp gweithredol yn cael ei sefydlu'n yn fuan i ymgymryd â'r gwaith hwn.
- Nodwyd bydd y sesiynau i Gynghorwyr yn cael eu trefnu o dan y prosiect Merched Mewn Arweinyddiaeth. Adroddwyd bod sesiwn eisoes wedi ei gynnal yn y chwe mis diwethaf, arweiniwyd y sesiwn yma gan Gynghorydd profiadol. Gobeithiwyd y gall hyn ddigwydd mwy a mwy yn y dyfodol ac ychwanegwyd os bydd galw, bydd sesiynau tebyg i ddynion yn cael eu cynnal.
- Cytunwyd â'r sylw am bwysigrwydd diogelwch a llesiant gan nodi bod trafodaethau cyfredol rhwng cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a Llywodraeth Cymru am faterion diogelwch felly mae'r mater yn derbyn sylw Cenedlaethol. Adroddwyd bod bwriad i Lywodraeth Cymru sefydlu gweithgor gyda chynrychiolaeth o wahanol sefydliadau megis yr Heddlu, Ombwdsmon ac Aelodau Etholedig i edrych ar arferion da yn y cyd-destun hwn. Ychwanegwyd bod cymorth eisoes ar gael gan y Cyngor i gynghori staff a Chynghorwyr ar faterion diogelwch, gellir cael mynediad i'r cynghorion hyn ar y Fewnrwyd Aelodau. Cytunwyd i anfon linc i'r wybodaeth yma at yr Aelodau yn dilyn y cyfarfod hwn ac i adeiladu ar hynny pan fydd y Pwyllgor yn cael trafodaeth ar y mater yn ddiweddarach yn y flwyddyn.
- Cytunwyd i anfon linc am beth sy'n cael ei wneud gan y Cyngor yn sgil ymateb a delio â chwynion gydag adolygiad neu sgwrs bellach ar y pwnc i gael ei gynnal yng nghyfarfod mis Tachwedd.
- Bydd materion am broblemau'r dyfeisiadau newydd yn cael eu trafod efo'r Uned TG ac atgoffwyd yr Aelodau i dynnu unrhyw faterion i sylw Swyddogion.

**7. ADOLYGU TREFNIADAU CROESAWU CYNGHORWYR**

**PENDERFYNWYD:**

**Derbyn yr adroddiad a chyflwyno sylwadau ar y trefniadau croesawu yn dilyn Etholiad Mai 2022.**

Cyflwynwyd crynodeb o'r trefniadau a ddatblygwyd ar gyfer croesawu Cynghorwyr newydd yn dilyn Etholiad 2022. Tywyswyd yr Aelodau drwy'r adroddiad gan fanylu ar drefniadau'r Diwrnod Canlyniadau, Diwrnod Croeso a'r Rhaglen Hyfforddiant.

Adroddwyd bod sylwadau cadarnhaol wedi eu derbyn ar y cyfan gyda rhai gwersi wedi eu dysgu ar gyfer y dyfodol. Eglurwyd bod dau ddiwrnod croeso wedi ei gynnal ar y 10fed a'r 11eg o Fai gyda 5 o Aelodau yn ymuno'n rhithiol dros y ddau ddiwrnod. Derbyniwyd sylwadau positif am y trefniadau hyn. Llwyddwyd i gyflwyno'r brif wybodaeth angenrheidiol i'r Aelodau gan ddosbarthu Llawlyfr gafodd ei ddatblygu gan y Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith fel adnodd cyfeirlyfr a threfnu darpariaeth TG ar gyfer yr holl Aelodau. Cydnabuwyd bod heriau wedi bod yn ystod y diwrnod croeso cyntaf oherwydd problem cyswllt wi-fi mewn ystafell gyfarfod. Serch hyn cafodd y trefniadau eu haddasu erbyn yr ail ddiwrnod ble llwyddwyd i ddarparu cyfarpar TG heb unrhyw oedi i'r Aelodau.

Manylwyd ar y sesiynau rhithiol gan bob Pennaeth Adran gafodd eu cynnal oedd yn rhoi cyfle i'r Aelodau dderbyn cyflwyniad am waith yr Adrannau yn ogystal â chyfle i holi unrhyw gwestiwn. Ategwyd bod y sesiynau hyn wedi cael eu recordio ac ar gael ar y Fewnrwyd Aelodau.

Ychwanegwyd bod yr amserlen wedi bod yn heriol rhwng y diwrnod canlyniadau a'r Diwrnod Croeso/Cyfarfod cyntaf y Cyngor gyda llawer o waith a thybiwyd y byddai angen addasu'r elfen yma i'r dyfodol. Credwyd hefyd y byddai angen pennu diwrnod neu ddyddiad penodol ar gyfer materion TG sef i ddewis, derbyn a gosod cyfarpar.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:

- Diolchwyd am y gwaith o baratoi Aelodau ac am yr ymdrech gan Swyddogion i alluogi Aelodau i fynychu cyfarfodydd o bell sydd wedi arbed amser teithio.
- Gwnaethpwyd sylw bod y Diwrnod Canlyniadau yn wych gyda digon o wybodaeth yn cael ei roi i Aelodau heb eu gorlwytho a mynegwyd sylwadau positif am y Diwrnod Croeso.
- Ategwyd yr hyn a nodwyd yn yr adroddiad am yr oedi gyda darpariaeth TG yn ystod y Diwrnod Croeso cyntaf a thybiwyd y dylai'r elfen hon fod ar ddiwrnod ar wahân.
- Mynegwyd gwerthfawrogiad bod y sesiynau penaethiaid wedi cael eu recordio. Gwnaethpwyd ambell sylw bod y sesiynau oedd yn cael eu cynnal am 4yh yn gweithio'n well o gymharu â'r sesiynau oedd yn cael eu cynnal yn y bore.
- Mynegwyd sylw bod bocs canlyniadau ward penodol yn ymddangos yn araf yn cael ei gyfri a theimlwyd y gellir bod wedi dechrau ar y cyfri yn gynt yn yr achos hwnnw. Awgrymwyd y dylid cael mwy o hyblygrwydd o ran y cyfri ar y Diwrnod Canlyniadau yn y dyfodol.
- Nodwyd fod teimlad bod y cardiau pleidleisio wedi cael eu hanfon allan yn gynamserol a dylid bod wedi aros tan ar ôl y cyfnod enwebu er mwyn arbed arian ac i osgoi dryswch ymysg rhai o'r cyhoedd oedd heb etholiad yn eu ward.
- Gofynnwyd am fanylion ynglŷn â'r trefniadau ar gyfer Cynghorwyr oedd wedi colli eu seddi neu Gynghorwyr oedd heb ail sefyll yn yr Etholiad, h.y. bathodynnau, e-byst a pharhad gwaith ward.
- Teimlwyd y dylid cynnig hyfforddiant ar y cyfarpar TG newydd i Aelodau ac i ystyried cynnig sesiynau TG. Mynegodd un Aelod ei fod eisoes wedi derbyn hyfforddiant un i un ac yn brolio'r gefnogaeth hon.
- Credwyd nad oedd digon o sôn am sut i hawlio costau yn ystod y Diwrnod Croeso. Gofynnwyd i e-bost gael ei anfon at yr holl Aelodau newydd efo canllawiau ar sut i gwblhau'r ffurflenni hawlio costau / lwfansau.
- Mynegwyd rhwystredigaeth am ddiffyg cyfathrebu gan y Parc gan nodi fod e-byst ddim yn cael eu hafon at Aelod sydd a'i ward o fewn finiau'r Parc.

- Broliwyd y ffurflen bapur efo manylion cyswllt Prif Swyddogion y Cyngor ond holwyd os oedd modd diweddaru'r ffurflen yma pan fydd symudiadau swyddi. Credwyd y dylai Aelodau gael eu diweddaru pan fydd swyddogaethau / staff yn newid er mwyn iddyn nhw addasu eu ffurflen bapur.
- Holiwyd pryd fydd y sgrinia i gyd-fynd a'r gliniaduron newydd yn cael eu dosbarthu i Aelodau. Soniwyd hefyd am broblem lawr lwytho dogfennau o'r cyfarpar newydd.

Mewn ymateb i'r sylwadau:
- Nodwyd y byddai'r Gwasanaeth Democratiaeth yn pasio sylwadau'r Aelodau ymlaen i'r tîm Etholiadau ar gyfer ystyriaeth at yr Etholiad nesaf i weld beth fydd yn bosib. Ychwanegwyd efallai bod rhai pethau wedi gorfod digwydd mewn ffordd benodol i ddilyn proses a chyd-fynd a gofynion cyfreithiol.
- Ategwyd bod lefel hyder a gallu Aelodau yn amrywio yn enwedig os wedi derbyn cyfarpar newydd a gwahanol; anogwyd yr Aelodau i gysylltu efo Cara Williams neu Ken Richardson am sesiynau hyfforddiant pellach. Ychwanegwyd bod Ken yn cynnig sesiynau un i un.
- Nodwyd bod e-bost wedi ei anfon at bob Cynghorydd oedd yn ail sefyll yn yr Etholiad yn egluro beth fyddai'n  digwydd yn sgil trefniadau cyflogau a chyfrifon TG petaent yn colli eu sedd. Cydnabuwyd efallai bod y neges hon heb fod yn ddigon clir i Aelodau ac felly yn rhywbeth pellach i'r Gwasanaeth fod yn edrych arno i'r dyfodol pan fydd cyfnod unrhyw un yn dod i ben. Ychwanegwyd bod gwaith yn digwydd yn y cefndir i gasglu'r ddarpariaeth TG yn ôl gan y cyn-aelodau.
- Adroddwyd bod cyfarwyddiadau ar gyfer hawlio costau teithio wedi eu nodi yn y Llawlyfr i Aelodau. Nodwyd y gall sesiwn gael ei gynnal cyn y cyfarfod Cyngor llawn nesaf yn yr Hydref pe tai dymuniad gan Aelodau er mwyn cael cyfle i fynd drwy materion o'r fath.
- Nodwyd y byddai'r Rheolwr Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith yn cysylltu efo Swyddog y Parc i wneud ymholiadau ac y byddai'n croesawu sgwrs y tu allan i'r cyfarfod hwn efo'r Aelod.
- Adroddwyd bod yr Aelodau yn derbyn bwletin wythnosol sy'n cynnwys  gwybodaeth pe bai newid ymhlith Rheolwyr y Cyngor. Eglurwyd bod trefniadau ar waith i'r tîm cyfathrebu gysylltu ag Aelodau i'w hysbysu pe bai newid mewn swyddogaethau o fewn y Cyngor er mwyn sicrhau bod yr Aelodau yn derbyn diweddariad. Atgoffwyd yr Aelodau hefyd i gadw golwg ar y Fewnrwyd Aelodau.
- Eglurwyd bod y monitors ychwanegol wedi eu harchebu ers cyn yr Etholiad ond nid yw'r Uned TG wedi eu derbyn eto. Bydd swyddogion o'r gwasanaeth TG yn cysylltu'n fuan.

**8. CYFARFODYDD AML-LEOLIAD**

**PENDERFYNWYD:**
**Derbyn y diweddariad am ddatblygiadau ymarferol o ran cynnal cyfarfodydd hybrid.**

Cyflwynwyd yr eitem oedd yn darparu diweddariad i Aelodau am y datblygiadau o ran cynnal cyfarfodydd hybrid gan fanylu ar y pedwar cyfarfod fydd yn cael eu cynnal yn hybrid neu'n aml-leoliad o ganlyniad i benderfyniad y Cyngor llawn ym mis Rhagfyr 2021. Nodwyd mai rhain yw'r cyfarfodydd gafodd eu hadnabod fel y rhai sydd o ddiddordeb uchel i'r cyhoedd. Ychwanegwyd y bydd gweddill y cyfarfodydd yn parhau i gael eu cynnal yn rhithiol yn unol â phenderfyniad y Cyngor Llawn.

Manylwyd ar y gwaith sydd bellach wedi ei gwblhau yn y ddwy Siambr er mwyn galluogi cynnal cyfarfodydd hybrid a'r ddarpariaeth newydd sydd mewn lle. Adroddwyd bod rhai cyfarfodydd eisoes wedi eu cynnal yn hybrid yn ddiweddar ac ar y cyfan wedi bod yn llwyddiannus. Bydd y Pwyllgorau Craffu yn cael eu cynnal yn hybrid dros y bythefnos nesaf.

Cyfeiriwyd at y gwaith fydd yn cymryd lle dros yr Haf o baratoi ystafelloedd cyfarfod eraill o fewn y Cyngor i fedru cynnal cyfarfodydd hybrid. Nodwyd bod y gwaith hwn yn cael ei arwain gan yr Uned TG.

Yn ystod y drafodaeth cododd y sylwadau canlynol:

- Cyfeiriwyd at yr 'eco' sydd i'w glywed yn Siambr Hywel Dda sy'n cael ei amlygu yn ystod cyfarfodydd hybrid.
- Holwyd os yw'r Aelodau yn cael defnyddio'r ystafelloedd gynhadledd ym Mhwllheli a Dolgellau.
- Gwnaethpwyd sylw bod dwy ystafell gyfarfod ym Mhenrhyndeudraeth; gofynnwyd a oedd ystyriaethau i ddarparu'r dechnoleg i alluogi galwad gynhadledd yn yr adeilad. Teimlwyd y gall gwell defnydd gael ei wneud o'r adnodd yma er mwyn arbed amser teithio a chostau.
- Diolchwyd am y cyfarfodydd hybid sydd eisoes yn cael eu cynnal. Gofynnwyd a fydd y cyfarfod hwn ymysg eraill yn parhau i fod yn rhithiol yntau oes cynlluniau i gynnal mwy o gyfarfodydd yn hybrid.
- Teimlwyd bod nodweddion positif a negyddol ynghlwm â chyfarfodydd hybrid. Credwyd ei fod yn dda i gyfleu gwybodaeth ond ddim mor effeithiol i gynnal trafodaethau.
- Credwyd y dylai'r Pwyllgorau Apêl Cyflogaeth gael eu cynnal wyneb yn wyneb a holwyd os yw hyn yn cael ystyriaeth.
- Cwestiynwyd sut y byddai cyfarfodydd yn gweithio yn ymarferol pe bai'r ddarpariaeth hybrid mewn amryw o leoliadau h.y. sicrhau argaeledd a llogi ystafelloedd mewn mwy nag un lleoliad. Rhagwelir y byddai hyn yn creu problemau i'r tîm Democratiaeth.

Mewn ymateb i'r sylwadau:

- Adroddwyd ei bod yn hanfodol i'r sawl sydd yn ymuno o gartref wisgo clustffonau efo microffon ynghlwm yn enwedig i gyfarfodydd fydd yn cael eu cynnal o Siambr Hywel Dda. Bydd hyn yn lleihau'r 'eco' ac yn gwneud y sain yn gliriach. Ychwanegwyd bod microffonau 'bluetooth' yn cael eu treialu ar hyn o bryd i'r Aelodau sydd efo ipad ac o ganlyniad yn methu defnyddio'r clustffonau traddodiadol, bydd diweddariad ar hyn yn fuan.
- Nodwyd bod rhaglen i uwchraddio 17 o ystafelloedd cyfarfodydd y Cyngor ar draws y Sir ar fin cychwyn er mwyn gallu cynnal cyfarfodydd hybrid. Gobeithiwyd cael diweddariad ym mis Medi ynglŷn ag ystafelloedd cyfarfod Pwllheli, Dolgellau a Penrhyndeudraeth.
- Eglurwyd y bydd y trefniadau ynglŷn â pha gyfarfodydd fydd yn cael eu cynnal yn hybrid yn cael eu hadolygu. Ychwanegwyd bod y penderfyniad terfynol yn nwylo'r Aelodau ond gofynnwyd i'r Cyngor gael mynd drwy un cylch llawn o gyfarfodydd cyn dod i gasgliad. Gellir wedyn ail edrych ond y penderfyniad presennol yw parhau gyda'r pedwar cyfarfod hybrid. Sicrhawyd y bydd y sefyllfa yn cael ei adolygu'n rheolaidd.
- Mynegwyd bod opsiwn i gynnal y Pwyllgorau Apêl Cyflogaeth wyneb yn wyneb pe bai'r unigolion sy'n apelio yn dymuno hynny. Bydd hyn yn cael ei ystyried ynghyd â sylwadau'r Aelodau. Ategwyd bod hyfforddiant yn cael ei gynnal dydd Gwener i Aelodau'r Pwyllgor Apêl Cyflogaeth a gallent roi ystyriaeth bellach i'r mater bryd hynny.
- Eglurwyd fod Siambr wedi ei adnabod wrth gynnal cyfarfodydd hybrid/aml-leoliad er mwyn galluogi mynediad i'r cyhoedd pe bai dymuniadau i fynychu. Cydnabuwyd fod posibilrwydd y bydd heriau wrth sicrhau argaeledd nifer o ystafelloedd cyfarfod ar yr un pryd, ond os na fydd ystafelloedd cyfarfod eraill ar gael ar draws y Sir bydd yr opsiwn o ymuno o gartref neu o bell ar gael i Aelodau.

Dechreuodd y cyfarfod am 14:00 a daeth i ben am 15:30.

**CADEIRYDD**

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | **Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd** |
| **DYDDIAD** | **17 Tachwedd, 2022** |
| **PWNC** | **Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd** |
| **PWRPAS** | **Enwebu Swyddog i'r Swydd** |
| **AWDUR** | **Dafydd Gibbard, Prif Weithredwr** |

1. Dan adran 8 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 mae gofyn i'r Cyngor enwebu un o'u swyddogion i swydd statudol "Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd". Mae gofyn hefyd i'r cyngor roi digon o gymorth i'r swyddog allu gwneud ei waith.

2. Mae'r penodiad i'w wneud gan y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar ran y Cyngor.

3. Swyddogaethau'r Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd ydi:

a) Rhoi cymorth a chyngor

- i'r awdurdod mewn perthynas â'i gyfarfodydd,
- i bwyllgorau'r awdurdod ac i aelodau o'r pwyllgorau hynny,
- i unrhyw gydbwyllgor
- i aelodau a swyddogion y Cyngor mewn perthynas â swyddogaethau pwyllgorau craffu
- i bob aelod o'r Cyngor mewn perthynas â'u gwaith

b) Hybu rôl y pwyllgorau craffu

c) Rhoi adroddiadau am nifer a graddau'r staff mae ei angen i gyflawni ei ddyletswyddau.

4. Ers i'r gofyn fod yn statudol yn 2012, pennodwyd Pennaeth yr Adran Strategol a Gwella i weithredu fel y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd. Ers 2015, yn sgil ymuno dwy adran, rhoddwyd y cyfrifoldeb i'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol.

6. Bydd aelodau'r Pwyllgor yn ymwybodol fod Ian Jones wedi ei benodi fel Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol yn ddiweddar.

7. Rwy'n argymell felly bod y pwyllgor yn dynodi'r Pennaeth Cefnogaeth Gorfforaethol, Ian Jones, yn Bennaeth Gwasanaethau Democrataidd y Cyngor.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 17 Tachwedd 2022 |
| **Pwnc** | Cefnogaeth i Gynghorwyr |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad. |
| **Swyddog Cyswllt:** | Vera Jones ac Annes Sion |

**Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

1. Mae'r Tîm Democratiaeth yn gweithio yn galed er mwyn sicrhau cefnogaeth lawn i Gynghorwyr. Er mwyn sicrhau'r gefnogaeth briodol rydym yn holi eich barn yn gyson.  Mae'r adroddiad hwn yn adrodd yn ôl ar ganlyniadau'r holiadur diweddaraf ac yn amlygu camau sydd wedi eu cymryd gan y tîm dros y cyfnod diwethaf er mwyn sicrhau fod y gefnogaeth yn safonol ac yn ddefnyddiol i chi fel aelodau.


**Amseriad Cyfarfodydd y Cyngor**

2. Cyhoeddwyd canllawiau statudol (ar ffurf drafft yn bresennol) dan adran 6 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ar amseriad cyfarfodydd y Cyngor. Mae'n angenrheidiol i Gynghorau gynnal arolwg o leiaf unwaith yn fuan ar ôl pob Etholiad i asesu dewisiadau Cynghorwyr ac ymrwymo i weithredu ar y casgliadau.  Dylid cynnal yr arolwg dim hwyrach na chwe mis ar ôl yr etholiadau cyffredin.

3. Er mwyn cydymffurfio a'r canllawiau statudol bu i ni anfon holiadur i'r holl Gynghorwyr yn ystod mis Hydref.  Un o'r elfennau dan sylw oedd ceisio barn ar amseriad cyfarfodydd y Cyngor .

4. Bu i 42 aelod ateb yr holiadur yn llawn. Gweler dadansoddiad isod o'r ymatebion ddaeth i law, ynghyd ag amlinelliad o'r camau nesaf.

5. <u>Cyngor Llawn</u>




Bu i 60% nodi yr awydd i'r cyfarfod gael ei gynnal am 1:30 yp, gyda 26% yn nodi 10am, 10% yn nodi 2pm a 2% yn nodi 6pm ac amseriad arall. Derbyniwyd sylwadau a oedd yn amlygu'r angen i gychwyn yn y prynhawn gan fod angen i'r grwpiau gwleidyddol allu cyfarfod yn ystod y bore a chael cyfle i drafod yr rhaglen.

6. Cabinet

Bu i 75% o'r aelodau Cabinet a gyflwynodd ymateb nodi awydd i'r cyfarfod fod yn cychwyn am 1:30 gyda 25% yn nodi 10 y bore. Mater i'r Cabinet ei hun yw amseru ei gyfarfodydd, ond adroddir yma er gwybodaeth.

7. Craffu




O ran amseriad y pwyllgorau Craffu, nododd 77% eu bod yn awyddus iddynt gychwyn am 10 yb, gyda 7% yn nodi 1:30 yp, 7% yn nodi 2 yp, a 3% yn nodi 4 yp, 6 yp ac amser arall.

Derbyniwyd sylwadau y dylid parhau i gynnal pwyllgorau craffu yn y bore gan fod modd gwneud gwaith ward yn y prynhawn, neu, os yn gyfarfod maith mae cychwyn y cyfarfod yn y bore yn golygu fod modd cael egwyl cinio cyn ail ymgyngyll at sesiwn prynhawn.

8. Cynllunio

Nododd 56% yr awydd i'r Pwyllgor Cynllunio gychwyn am 10yb, gyda 28% yn nodi 1:30pm, 11% yn nodi amser arall, a 5% yn nodi 6pm. Nododd un unigolyn eu bod wedi dewis 10 y bore fel amser mwyaf ffafriol, ond eu bod yn sylweddoli fod ymweliadau safle yn cael eu cynnal ar fore y cyfarfod yn achlysurol ac y byddai hynny yn mynd yn groes i'r trefniant yma.

9. <u>Pwyllgorau Eraill</u>
O ran pwyllgorau eraill sydd yn cael eu cynnal nodwyd awydd gan 68% i'r pwyllgorau yma fod yn dechrau am 10am, gyda 12% yn nodi 1:30 yp, 8% yn nodi 2 yp, a 3% yn nodi unai 4 yp, 6 yp neu arall.

10. Mae'r detholiad isod o sylwadau am amseriad pwyllgorau yn cynrychioli y prif negeseuon gafodd eu cyflwyno:

"*Fel Cynghorydd sydd hefyd gyda swydd llawn amser, nid yw'n bosibl i mi fynychu pob cyfarfod sydd yn cael eu cynnal yn ystod y dydd. Mae cyfarfodydd sydd yn cael eu cynnal am 16.00 yn gweithio'n llawer gwell i mi yn bersonol.*"

"*Ar gyfer pwyllgorau eraill, os y'u cynhelir yn y bore mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i barhau tan y prynhawn os oes angen mwy o amser. Mae'n well gennyf osgoi cyfarfodydd gyda'r hwyr gan fod llawer o gyfarfodydd yn y gymuned yn digwydd bryd hynny, e.e. llywodraethwyr ysgol, cynghorau cymuned, grwpiau gwirfoddol, pleidiau gwleidyddo*l"

"*cyfarfodydd yn ystod y dydd yn gweithio'n well - llawer o alwadau eraill yn yr hwyr*"

"*Dim rheswm penodol a deud y gwir, dim ond teimlo bod hi'n bwysig ymroi i'r gwaith cyngor yn y bore (eithriad yw'r Cyngor Llawn oherwydd y cyfarfodydd Grŵp ) ! Hoffwn i DDIM cynnal cyfarfodydd gyda'r nos, ond fel eithriad*."

"*Byddwn yn falch o gael pwyllgorau yn y bore os yn bosib, byddwn hefyd yn falch o gael pwyllgorau, hyfforddiant a cyfarfodydd y Cyngor i gyd ar ddyddiau penodol fel Mawrth, Mercher, Iau yn lle bod pethau ar draws yr wythnos. Byddai hyn yn galluogi mi i drefnu a cynllunio yn well.*"

11. Yn ogystal cyflwynwyd sylwadau ynghylch hyd pwyllgorau. Roedd negeseuon clir ynghylch yr angen i sicrhau toriad am amser synhwyrol os yw cyfarfod o unrhyw Bwyllgor yn rhedeg yn hir. Mae'n ofynnol sicrhau hyn er mwyn caniatáu i unigolion (yn Gynghorwyr a staff) gael amser i gael bwyd, ychydig o ymarfer/symud a thoriad oddi ar y sgrin mewn cyfarfod rhithiol neu wrth ymuno o bell mewn cyfarfod aml leoliad.

12. Yn amlwg nid oes modd cyrraedd anghenion pawb, ac felly bydd angen gweithredu ar argymhellion y mwyafrif. Y camau nesaf yw defnyddio'r wybodaeth uchod fel sail I drafodaethau er mwyn creu Calendr Pwyllgorau ar gyfer 2023/24. Bydd drafft yn cael ei gyflwyno i chi fel Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ym mis Mawrth 2022.

**Bodlonrwydd gan Gynghorwyr**

13. Rydym yn awyddus i fod yn gwella ein gwasanaeth yn barhaus ac yn darparu'r gefnogaeth sydd ei angen ar gyfer Cynghorwyr. Felly, yn dilyn cyfnod croesawu Aelodau ar ôl yr Etholiad roeddem yn credu ei bod yn amserol i ofyn am adborth ar y gwasanaeth sydd yn cael ei gynnig gan y tîm democratiaeth yn benodol.

14. Gofynnwyd amrywiaeth o gwestiynau, gan gynnwys bodlonrwydd gyda gwaith y tîm ynghyd ag unrhyw ddatblygiadau y gallai'r tîm ei wneud i'r dyfodol. Unwaith eto, roedd 41 Cynghorydd wedi ymateb yr holiadur yn llawn gan nodi eu barn am wasanaeth y tîm.

15. Nododd 95% fod y gwasanaeth yn dda iawn, neu'n dda gyda 2 gynghorydd yn nodi fod y gwasanaeth yn dderbyniol.

16. Derbyniwyd nifer o sylwadau ychwanegol, a oedd yn cynnwys yr isod:

"*Mae'r tîm wedi bod yn groesawgar es i mi gychwyn y swydd ac yn gefnogol iawn i unrhyw ymholiad*"

"*Mae'r tîm wedi bod yn gefnogol, yn weithgar ac bob tro yno i helpu a galluogi mi fel cynghorwr newydd*."

"*Cyfathrebu effeithiol, cwrtais, cydwybodol a chyfeillgar*."

"*In eighteen years, I don't think I've ever experienced any problems and have always found the team members to be very helpful.*"

17. Holwyd a oes unrhyw ddatblygiadau neu newidiadau y gall y tîm eu gwneud i gefnogi Cynghorwyr ymhellach yn eu rôl. Ymhlith y sylwadau nodwyd anfodlonrwydd gyda'r gweithredu'n ddemocrataidd / gwleidyddol yn y Cyngor. Mater gwleidyddol oedd dan sylw yma.

18. Ymhlith y sylwadau eraill derbyniwyd yr isod. Nodwyd cais gan aelod am 'fentor' anffurfiol, a rhestr wythnosol o'r hyfforddiant sydd ar gael. Mae'r cais eisoes wedi ei yrru ymlaen i'r Tîm Dysgu a Datblygu i drafod yn uniongyrchol gyda'r unigolyn.

19. Holwyd pa ddogfennau sydd ar gael ar y Mewnrwyd Aelodau. Yn sgil y sylw, byddwn yn anfon gwybodaeth dros yr wythnosau nesaf yn amlygu cynnwys y mewnrwyd aelodau fel fod pawb yn ymwybodol o'r wybodaeth ddefnyddiol iawn sydd yno.

20. Mynegodd un aelod anfodlonrwydd gyda'r ffordd mae presenoldeb mewn cyfarfodydd yn cael ei nodi ar hyn o bryd, a byddwn yn trefnu cyfarfod gyda'r unigolyn dros yr wythnosau nesaf i drafod y mater.

21. Roedd cais gan un aelod am gydnabyddiaeth e-bost pan fydd y tîm democratiaeth yn derbyn ymddiheuriad o gyfarfodydd. Bydd y tîm yn

symud i weithredu ar yrru neges cydnabyddiaeth yn y dyfodol agos, fodd bynnag bydd hynny ar gyfer ymddiheuriadau a dderbynnir mewn da bryd.

22. Rydym yn awyddus i wella ein gwasanaeth ac ateb gofynion Cynghorwyr gan ddatgan a gweithredu'n barhaus ar hynny . Yn ogystal a'r holiadur electroneg sy'n cael ei yrru at Gynghorwyr ddwy waith y flwyddyn, byddwn yn ail afael yn ein trefniadau i gynnal sgwrs gyda 2 neu 3 Cynghorydd bob mis er mwyn trafod y gefnogaeth sy'n cael ei gynnig i chi a chael gwell dealltwriaeth o'r rhwystrau.

**Cyfathrebu gyda Chynghorwyr**


23. Roedd yr ymarferiad hefyd yn gyfle i holi barn yr Aelodau am y dulliau mae Gwasanaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu'r Cyngor yn eu defnyddio i rannu newyddion / gwybodaeth ddefnyddiol efo Cynghorwyr a sut gellir gwella'r ddarpariaeth i helpu Aelodau gyda'u gwaith.

24. Holwyd am bedwar maes cyffredinol – y Bwletin Wythnosol i'r Aelodau; Bwletin Arweinydd a Dirprwy Arweinydd y Cyngor; Mewnrwyd yr Aelodau; y bwriad i gynnal cyfarfodydd a/neu nodiadau briffio ar faterion allweddol.

25. Cafwyd adborth cadarnhaol ac adeiladol am y pwyntiau hyn, fydd o fudd i'r Gwasanaeth cyfathrebu barhau i ddiwallu anghenion Aelodau Etholedig. Dyma amlinelliad o'r ymatebion a dderbyniwyd:


**i)** E-bost wythnosol **Bwletin yr Aelodau** a anfonir i holl gynghorwyr yn wythnosol sy'n cynnwys dolenni i eitemau newyddion ar y fewnrwyd ac ambell eitem berthnasol arall:

- Dywedodd **76%** (31) eu bod yn ei **ddarllen bob wythnos**;
- Dywedodd **22%** (9) eu bod yn ei ddarllen yn **achlysurol** (unwaith neu ddwywaith y mis);
- Dywedodd **2%** (1) mai yn **anaml** maent yn ei ddarllen.




**ii)** **Bwletin yr Arweinydd a'r Dirprwy Arweinydd** a anfonir i holl gynghorwyr bob yn ail wythnos – gan amlaf yn rhan o'r Bwletin Aelodau wythnosol:

- Dywedodd **68%** (28) eu bod yn ei ddarllen **bob tro**;
- Dywedodd **24%** (10) eu bod yn ei ddarllen yn **achlysurol**;
- Dywedodd **7%** (3) mai yn **anaml** maent yn ei ddarllen.




**iii)** Y **gofod newyddion ar Fewnrwyd yr Aelodau** ble cyhoeddir eitemau newyddion a phytiau gwybodaeth yn rheolaidd ar gyfer cynghorwyr:


- Dywedodd **27%** (17) eu bod yn sylwi ar/yn darllen yr eitemau hyn **yn aml** (unwaith yr wythnos neu'n fwy aml);
- Dywedodd **41%** (11) eu bod yn sylwi ar/yn darllen yr eitemau hyn yn **achlysurol** (unwaith y mis neu'r fwy aml);
- Dywedodd **22%** (9) mai yn **anaml** maent yn sylwi ar/yn darllen yr eitemau hyn;
- Dywedodd **10%** (4) nad ydynt **byth** yn sylwi ar/yn darllen yr eitemau hyn.




**iv)** **Sesiynau a Nodiadau Briffio**. Mae bwriad i ddechrau cynnal sesiynau briffio a darparu nodiadau briffio ar gyfer aelodau ynghylch materion allweddol sy'n debygol o ddwyn sylw yn y gymuned neu yn y wasg. Y nod

fydd rhoi gwybodaeth gefndirol am bwnc penodol fel fod Aelodau yn cael amser i ddeall mwy am y cyd-destun cyn derbyn ymholiadau.

- Dywedodd **88%** (35) eu bod yn meddwl byddai hyn yn **ddefnyddio**l;
- Dywedodd **10%** (4) **nad oeddynt yn gwybod** os byddai hyn yn ddefnyddiol;
- Dywedodd **3%** (1) **na fyddai hyn yn ddefnyddiol**.




26. Roedd cyfle i'r Aelodau nodi sylwadau ac awgrymiadau ysgrifenedig ar gyfer pob cwestiwn. Mae'r Gwasanaeth yn ddiolchgar i'r nifer fawr a fanteisiodd ar y cyfle i gynnig sylwadau. Ar sail yr adborth yma, bydd gwelliannau yn cael eu cyflwyno fydd yn cynnwys:

- Eitemau rheolaidd yn y Bwletin Wythnosol fydd yn denu sylw pellach at wybodaeth defnyddiol sydd ar gael ar y Fewnrwyd Aelodau, er enghraifft:
    - Calendr Hyfforddiant Aelodau;
    - Cyfarwyddiadur o swyddogion allweddol ym mhob maes;
    - Calendr o dyddiadau ac amseroedd Pwyllgorau'r Cyngor;
    - Manylion ymgynghoriadau ac ymarferiadau ymgysylltu'r Cyngor a'n partneriaid;
- Erthyglau nodwedd am unigolion sy'n gweithio i'r Cyngor a'u gwaith;
- Erthyglau achlysurol i amlygu gwaith rhai pwyllgorau yn ychwanegol i waith y Cabinet;
- Sefydlu trefn o gynnal Cyfarfodydd Briffio a darparu Nodiadau Briffio i'r Aelodau am faterion allweddol tebyg i'r cyfarfod rhithwir a gynhaliwyd yn ddiweddar gyda'r Prif Weithredwr am gyllideb y Cyngor a'r sefyllfa ariannol.

**Cynghorwyr Benywaidd**

27. Fel rhan o weithgareddau'r rhaglen Hybu Amrywiaeth mewn Democratiaeth, rhoddwyd trefniadau mewn lle yn ystod tymor y Cyngor diwethaf i gynnal sesiynau penodol ar gyfer Merched sy'n Gynghorwyr. Mae'r sesiynau anffurfiol (sgwrs dros baned) wedi cynnig gofod diogel lle mae'r Cynghorwyr wedi cael cyfle i

   • gefnogi ei gilydd a chymharu profiadau a dysgu oddi wrth y naill a'r llall
   • drafod rhwystrau neu faterion sy'n eu poeni a chynnig datrysiadau.

28. Mae'r holl drafodaethau yn digwydd o fewn amgylchiadau diogel ac anwleidyddol. Rydym wedi arfer adrodd nol ar y themâu oedd yn codi yn ystod y trafodaethau er mwyn gweld os oedd camau penodol i'r Cyngor eu hystyried. Y prif themâu oedd yn codi o'r sgyrsiau diwethaf oedd:

   - Fod y Rhaglen croeso a'r hyfforddiant wedi bod yn dda, ond fod balans bywyd a gwaith yn anodd. Roedd hyn yn arbennig wrth geisio cysoni rôl Cynghorydd gyda
     a) cynnydd yn y gwaith mewn wardiau (maint y wardiau wedi cynyddu mewn rhai llefydd a gofynion y gymdeithas yn sicr wedi cynyddu) a
     b) cysoni'r rôl Cynghorydd gyda gwaith llawn amser
   - Thema arall amlwg oedd sut y mae'r gymdeithas wedi newid, gyda nifer yn gweld pobl yn teimlo yn "entitled" i gymorth ar unrhyw adeg, ac eraill yn nodi fod mwy o'r gymdeithas yn ymddwyn yn fwy bygythiol.
   - Yn sgil y sgwrs uchod trafodwyd diogelwch yn y Siambr, wrth ystyried cynnal syrjeris neu gwrdd a'r cyhoedd, a'r bygythiadau sydd wedi digwydd dros wefannau cymdeithasol ac yn y stryd. Rhoddwyd anogaeth i bawb geisio mynychu'r cwrs hyfforddiant ar ddiogelwch, sydd wedi ei addasu yn ddiweddar i gyfarch diogelwch cynghorwyr, ac i edrych ar y mewnrwyd am tips cyn cynnal syrjeris. Hefyd, gwnaethpwyd cais am hyfforddiant ymdrin a'r cyfryngau cymdeithasol.

29. Cynhaliwyd dau gyfarfod, gydag un criw yn awyddus i drefnu "merch wadd" i siarad am eu profiadau ar gyfer darn o'r cyfarfod nesaf. Roedd y criw arall hefyd yn awyddus i'r sesiynau barhau. Bydd y sesiwn nesaf yn cael ei drefnu at gychwyn 2023.

**Argymhelliad**

**30.** Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth nodi'r sylwadau a derbyn yr adroddiad.

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 17 Tachwedd 2022 |
| **Pwnc** | Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth<br>• dderbyn y diweddariad o'r camau gweithredu yn unol â gofynion y ddeddf ac i argymell y Cynllun Deisebau i'r Cabinet<br>• adnabod 2 neu 3 aelod i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu protocol 'Cymorth a Gwasanaethau Ymchwil i Gynghorwyr'. |
| **Swyddog Cyswllt:** | Annes Sion, Arweinydd Tîm Democratiaeth |
| | |

**Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

1. Fel y gwyddoch bu i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 dderbyn cyd-syniad brenhinol yn ôl yn nechrau 2021. Mae 9 Prif ran i'r Ddeddf sydd yn berthnasol i Awdurdodau Lleol.

2. Mae'r ddeddf wedi ei gosod o fewn y Gofrestr Risg Corfforaethol oherwydd ei arwyddocâd a rhaglen waith wedi ei osod a oedd yn arddangos yr ystod o dasgau sydd o ganlyniad i'r Ddeddf hon. Bu i dîm gweithredol o'r Gwasanaeth Democratiaeth ac Iaith a Gwasanaethau Cyfreithiol gael ei greu er mwyn cynnal y gwaith hwn i ddod ar darpariaethau yma yn weithredol.

3. Pwrpas yr adroddiad hwn yw i roi diweddariad i chi fel Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar y camau gweithredu perthnasol a'r gwaith sydd wedi ei wneud yn unol â gofynion y ddeddf.

**Strategaeth Cyfranogiad**

4. Dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 – rhan 3, rhaid i awdurdodau lleol yng Nghymru gyhoeddi Strategaeth Cyfranogiad sy'n nodi'r ffyrdd y caiff pobl leol eu hannog i gymryd rhan ym mhrosesau'r Cyngor o wneud penderfyniadau.

5. Mae datblygu'r strategaeth ddrafft wedi bod yn waith mae'r tîm gweithredol wedi bod yn ei wneud dros y misoedd diwethaf. Pwysleisir y bydd y strategaeth yn esblygu ac yn gwella dros amser wrth i arferion da ddod i'r amlwg. Bydd y strategaeth hon yn amlinellu nod Cyngor Gwynedd i annog pobl i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau.

6. Bydd y strategaeth yn pwysleisio nod y Cyngor o fod yn agored ac yn ymatebol i anghenion trigolion a chymunedau Gwynedd. Bydd hyn yn rhoi cyfle i bobl leol ddylanwadu ar bolisi a gwasanaethau a'u siapio. Ein

amcan yw creu diwylliant o bartneriaeth gyda'r cyhoedd sydd yn annog mynegi barn a chyfrannu.

7. Mae Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 yn gosod nifer o ddyletswyddau ar awdurdodau lleol o ran cyfranogiad. Sef:
    I. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o'r swyddogaethau y mae'r Cyngor yn eu cyflawni i drigolion a busnesau lleol ac i ymwelwyr.
    II. Rhannu gwybodaeth am sut i ddod yn Aelod etholedig, neu'n Gynghorydd, ac am yr hyn y mae rôl y Cynghorydd yn ei gynnwys.
    III. Sicrhau y gellir cael gafael haws ar wybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u gwneud, neu sydd i'w gwneud_ gan y Cyngor.
    IV. Cynnig a hyrwyddo cyfleoedd i drigolion roi adborth i'r Cyngor, gan gynnwys sylwadau, cwynion a mathau eraill o sylwadau.
    V. Hyrwyddo ymwybyddiaeth o fanteision defnyddio'r cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â thrigolion i Gynghorwyr.

8. Mae'n ofynnol, yn unol a'r arweiniad, i'r Strategaeth Cyfranogiad fynd i ymgynghoriad cyhoeddus cyn iddo gael ei fabwysiadu. O ganlyniad, bwriedir cyflwyno adroddiad i Gabinet y Cyngor ym mis Rhagfyr yn gofyn am ganiatâd i fynd i ymgynghoriad cyhoeddus ar gynnwys y strategaeth yn Ionawr 2023. Byddwn yn cyflwyno canfyddiadau'r ymgynghoriad ynghyd ag unrhyw addasiadau yn y fersiwn derfynol o'r strategaeth i'r Cyngor Llawn ym mis Mawrth.

**Cynllun Deisebau**

9. Eto yn Rhan 3 o'r Ddeddf, mae'n ofynnol i'r Cyngor greu a chyhoeddi Cynllun Deisebau.

10. Mae deisebu yn un ffordd y gall unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd. Mae'n ffordd y gall y cyhoedd godi materion sy'n peri pryder iddynt gyda'r Cyngor a chaniatáu i Aelodau Etholedig ystyried yr angen am newid.

11. Mae'r Cynllun (Atodiad 1) yn gosod y camau gall y Cyngor eu cymryd pan yn derbyn deiseb gan unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau. Amlinellir beth yw'r gofynion o ran cyflwyno deiseb ddilys gan amlygu pwy all arwyddo y ddeiseb a sut y bydd y Cyngor yn cadarnhau deiseb ddilys. Bydd deisebau dilys fydd yn cael eu derbyn yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Cyngor gan gynnwys y camau gweithredu fydd i ddilyn.

12. Mae'n rhaid pwysleisio fod trefniadau statudol yn bodoli mewn ambell faes penodol, megis Ail Strwythuro Ysgolion a'r Maes Cynllunio ac NA FYDD deiseb yn cael ei derbyn tu allan i'r trefniadau hyn.

13. Yn dilyn derbyn eich sylwadau ar y Cynllun Deisebau heddiw byddwn yn cyflwyno'r Cynllun i'r Cabinet ddiwedd Tachwedd I'w argymell I'w fabwysiadu gan y Cyngor Llawn ym mis Rhagfyr.

**Cymorth a Gwasanaethau Ymchwil i Gynghorwyr**

14. Mae'r ddogfen "llywodraeth Leol: Canllawiau i Brif Gynghorau" yn nodi'r canllawiau diweddaraf y mae'n rhaid i awdurdodau lleol roi sylw iddynt. Er bod y canllawiau ar ffurf dogfen ymgynghori ar hyn o bryd, ni ragwelir newid mawr ac felly rydym wedi rhoi sylw priodol iddynt.

15. Un o'r meysydd penodol dan sylw yw 'Cymorth a Gwasanaethau Ymchwil i Gynghorwyr'. Mae'r ddogfen yn nodi y dylai pob aelod etholedig allu cael gafael ar amrywiaeth o wybodaeth a chymorth. Mae'r ddogfen hefyd yn nodi mai cyfeirio Aelodau unigol at ffynonellau presennol o wybodaeth neu gyfleoedd hyfforddi sydd i'w cael eisoes sydd dan sylw yn y pecyn 'cymorth/ymchwil'.

16. Mae'n ofynnol i Bwyllgorau Gwasanaethau Democratiaeth sefydlu protocol neu set o reolau sy'n llywodraethu sut y dylai cynghorwyr ddisgwyl gallu cael mynediad at wybodaeth, a Gwasanaeth ymchwil sy'n deg a chymesur, gan osgoi unrhyw ddyblygu.

17. Mae protocol drafft wrthi'n cael ei ddatblygu. Byddai sicrhau mewnbwn tîm bach o gynghorwyr i gynorthwyo gyda'r drafft cyn ei gyflwyno I'r Pwyllgor yn werthfawr iawn. Gofynnir I'r Pwyllgor adnabod 2 neu 3 aelod i gynorthwyo gyda'r gwaith yma. Bydd yn golygu 1 cyfarfod, yn debygol ddechrau 2023.

**Argymhelliad**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth

- dderbyn y diweddariad o'r camau gweithredu yn unol â gofynion y ddeddf ac i argymell y Cynllun Deisebau i'r Cabinet
- adnabod 2 neu 3 aelod i gynorthwyo gyda'r gwaith o ddatblygu protocol 'Cymorth a Gwasanaethau Ymchwil i Gynghorwyr'.

# Cynllun Deisebau 2022

## Trosolwg

Mae deisebu yn un ffordd y gall unigolion, grwpiau cymunedol a sefydliadau gymryd rhan yn y broses ddemocrataidd, drwy godi materion sy'n peri pryder i'r cyhoedd gyda'r Cyngor a chaniatáu i Aelodau Etholedig ystyried yr angen am newid.

Gall deisebau gael canlyniadau cadarnhaol sy'n arwain at newid neu'n llywio trafodaeth.

Cyn ystyried a ddylid codi deiseb a'i peidio, awgrymir i chi drafod y mater gyda'ch Cynghorydd Lleol a allai eich cynorthwyo gyda'r mater neu egluro sut i gyflwyno sylwadau ar bwnc penodol i'r person cywir o fewn y Cyngor.

## Pwy all godi deiseb?

Gall unrhyw un sy'n byw, yn gweithio, yn berchen ar fusnes neu'n astudio yng Ngwynedd lofnodi neu gyflwyno deiseb, gan gynnwys y rhai dros 16 oed. Gall unrhyw un sy'n byw yn ardal Cyngor cyfagos hefyd lofnodi neu gyflwyno deiseb OS oes rheswm rhesymol i bwnc y ddeiseb fod yn effeithio arnynt yn uniongyrchol.

Gellir cyflwyno deisebau ar bapur neu'n electronig gan ddefnyddio system ddeisebu ar-lein sy'n bodloni gofynion deiseb ddilys (gweler isod), neu gyfuniad o ddeiseb ar lein a deiseb bapur.

## Ystyried Deiseb

Gall deiseb gael ei hystyried gan wahanol gyrff o'r Cyngor ee mewn cyfarfod o'r Cyngor, y Cabinet, gan yr aelod perthnasol o'r Cabinet neu gan bwyllgor Craffu os yw pwnc y ddeiseb yn ymwneud â rôl benodol y pwyllgor hwnnw.

Bydd Pennaeth y Gwasanaethau Democratiaeth â'r Swyddog Monitro yn ystyried y deisebau a gyflwynir ac yn penderfynu a yw'r ddeiseb yn dderbyniol yn seiliedig ar y meini prawf canlynol ar gyfer deiseb ddilys, gan gynghori ar y corff priodol i'w ystyried. Bydd angen derbyn cadarnhad bod y ddeiseb yn ddilys cyn iddo gael ei gyhoeddi ar wefan y Cyngor.

Noder fod trefniadau statudol yn bodoli mewn ambell i faes penodol (e.e. Ail Strwythuro Ysgolion a Maes Cynllunio). Ni dderbynnir deiseb y tu allan i'r trefniadau statudol hynny.

## Gofynion Deiseb Ddilys.

Prif Ddeisebydd

Bydd yn rhaid i ddeisebydd arweiniol gael ei nodi a fydd yn gweithredu fel pwynt cyswllt ar gyfer y ddeiseb. Dyma'r gofynion sy'n angenrheidiol ar gyfer prif ddeisebydd:

1. Gall enw'r prif ddeisebydd fod yn unigolyn sy'n byw, yn gweithio neu'n astudio o fewn Gwynedd, yn berchnogion tir / trethdalwr neu'n sefydliad sydd wedi'i leoli yng Gwynedd.

2. Rhaid i'r prif ddeisebydd nodi cyfeiriad cartref / gwaith / sefydliad yn llawn ynghyd â chyfeiriad e-bost neu wybodaeth gyswllt y gellir anfon unrhyw ohebiaeth sy'n ymwneud â'r ddeiseb ati.

## Y Ddeiseb

Bydd y Cyngor yn ystyried pob deiseb gyda mwy na 100 o lofnodwyr sy'n dod o fewn cwmpas y Cynllun hwn. Gall y Cyngor yn defnyddio'i ddisgresiwn lle ceir llai na 100 o lofnodwyr mewn achosion lle ceir cefnogaeth leol glir ar gyfer gweithredu (e.e. lle mae trigolion cymuned fach wedi deisebu ar gyfer mesurau arafu traffig).

Gellir cyflwyno deisebau i'r Cyngor neu un o'i bwyllgorau naill ai ar bapur neu'n electronig, gyda gofynion cyffredinol y Cynllun yn berthnasol i bapur ac e-ddeisebau. Rhaid i'r ddeiseb:

1. gynnwys datganiad clir, byr sy'n ymdrin â phwnc y ddeiseb. Caiff y ddeiseb ei dychwelyd os yw'n aneglur;

2. fod yn ymwneud â mater sydd dan gyfrifoldeb y Cyngor.

3. alw ar Gyngor Gwynedd i gymryd camau penodol, er enghraifft: "Rydym yn galw ar Gyngor Gwynedd i..." neu "Rydym yn galw ar y Cabinet i ..." Rhaid ei ailadrodd ar bob tudalen o ddeiseb ar bapur.

4. darparu enwau a chyfeiriadau post y rhai sy'n llofnodi'r ddeiseb, gan gynnwys codau post.

5. Dangosir templed deiseb a awgrymir yn Atodiad A (Dolen yn agor mewn ffenestr newydd)

Ni ddylai deisebau gynnwys:

1. Iaith sy'n sarhaus, yn ddirmygus neu'n bryfoclyd. Mae hyn nid yn unig yn cynnwys rhegfeydd a sarhad amlwg, ond unrhyw iaith y byddai person rhesymol yn ei hystyried yn sarhaus.

2. Datganiadau a allai fod yn ffug neu a allai fod yn ddifenwol.

3. Gwybodaeth sydd wedi'i gwahardd rhag cael ei chyhoeddi gan orchymyn llys neu gorff neu berson sydd â phŵer tebyg.

DRAFT

DRAFT

4. Deunydd a allai fod yn gyfrinachol, yn fasnachol sensitif, neu a allai achosi trallod neu golled bersonol.

5. Unrhyw gymeradwyaeth fasnachol, hyrwyddo unrhyw gynnyrch, gwasanaeth neu gyhoeddiad neu ddatganiadau sy'n gyfystyr â hysbysebion.

6. Enwau unigolion.

7. Materion nad deiseb yw'r sianel briodol ar eu cyfer (er enghraifft, gohebiaeth am fater personol neu fater sy'n destun achos llys).

8. Deisebau ar faterion sydd eisoes yn destun penderfyniad gan Ombwdsmon (neu berson sydd â phwerau tebyg)

9. Deisebau sydd yn eu hanfod yn geisiadau rhyddid gwybodaeth, sylwadau, canmoliaethau neu gwynion, a fydd yn cael eu trosglwyddo i'r adran briodol am ymateb addas.

10. Bydd deisebau sy'n codi materion sy'n ymwneud â chamymddwyn posibl gan gynghorwyr neu weithwyr llywodraeth leol yn cael eu cymryd fel cwynion sy'n codi o dan Ddeddf Llywodraeth Leol 2000 a chânt eu hadrodd i'r Swyddog Monitro yn hytrach na'u hystyried o dan y cynllun deiseb hwn.

11. Ni ddibynnir y ddeiseb os yw’n sylweddol debyg i ddeiseb a gyflwynwyd i un o Bwyllgorau’r Cyngor yn ystod y chwe mis diwethaf.

### Llofnodwyr Deisebau

Llofnodwr priodol yw unigolyn sy'n byw, yn gweithio, yn berchen ar fusnes neu’n astudio yng Ngwynedd; yn berchnogion tir / trethdalwr neu sy'n byw yn ardal sir cyfagos ac y gellid disgwyl yn rhesymol iddo/iddi gael eu effeithio gan bwnc y ddeiseb.

Dim ond unwaith y gall unigolyn lofnodi deiseb. Rhaid i bobl beidio â llofnodi deiseb ar-lein ac un ar bapur, a gellir dileu dyblygu os canfyddir bod deisebydd wedi llofnodi ddwywaith.

## Cyflwyno Deiseb

Rhaid i ddeisebau papur neu electronig, sydd i'w hystyried gan y Cyngor gael eu cyflwyno i:

Gwasanaethau Democratiaeth
Cyngor Gwynedd
Stryd y Jêl

Caernarfon
Gwynedd
LL55 1SH
Neu'n electronig i: GwasanaethauDemocratiaeth@gwynedd.llyw.cymru

### Sut ac erbyn pryd y bydd y Cyngor yn cydnabod derbyn deiseb

Bydd derbyn neu hysbysu am ddeiseb bapur, neu gyflwyno deiseb electronig i'r Gwasanaethau Democratiaeth, yn cael ei gydnabod o fewn 5 diwrnod gwaith ar yr amod bod manylion cyswllt y prif ddeisebydd yn cael eu darparu ar yr un pryd.

### Cadarnhau Deiseb Ddilys

Bydd gwiriadau cychwynnol i gadarnhau bod deiseb a gyflwynir yn bodloni gofynion y Cynllun yn cael ei gynnal gan y Swyddog Monitro a Swyddogion Gwasanaethau Democratiaeth.

Os derbynnir nifer o ddeisebau ar bwnc tebyg gyda chanlyniadau dymunol tebyg, dim ond un prif ddeisebydd fydd yn gallu cyflwyno ei ddeiseb i'r Cyngor.  Bydd y Prif ddeisebydd ar gyfer pob deiseb yn cael ei hysbysu gan y Gwasanaethau Democratiaeth, a gofynnir iddynt gysylltu â'i gilydd er mwyn ystyried opsiynau i gyfuno deisebau a phenderfynu pa ddeisebydd arweiniol fydd yn cyflwyno'r ddeiseb i'r Cyngor.  Os na cheir cytundeb, bydd gan y deisebydd sydd â'r nifer fwyaf o lofnodion yr hawl i gyflwyno'r ddeiseb i'r Cyngor.

Bydd unrhyw bryderon ynghylch dilysrwydd y ddeiseb yn cael eu codi gyda'r Swyddog Monitro cyn annilysu unrhyw ddeiseb.

Os yw eich deiseb yn annilys, bydd y prif ddeisebydd yn cael gwybod o fewn 5 diwrnod gwaith o dderbyn y ddeiseb.

## Y camau y gall y Cyngor eu cymryd mewn ymateb i ddeiseb a dderbyniwyd.

Derbynnir deisebau dros e-bost neu drwy law ac fel cam cyntaf byddant yn cael ei gwrio ac os yn dderbyniol bydd yn cael arddangos ar wefan y Cyngor am gyfnod o  2 fis.

Bydd angen i'r ddeiseb dderbyn dros 100 llofnod cyn cael ei dderbyn gan y Cyngor. Gall y Cyngor ddefnyddio'i ddisgresiwn lle ceir llai na 100 o lofnodwyr mewn achosion lle ceir cefnogaeth leol glir ar gyfer gweithredu (e.e. lle mae trigolion cymuned fach wedi deisebu ar gyfer mesurau arafu traffig). Bydd pob deiseb yn dilyn y cyfnod o fod yn agored am 2 fis yn cael ei wirio.

Os yn ddilys bydd y ddeiseb yn cael hanfon ymlaen i'r Aelod Cabinet gyda copi yn mynd i'r Gadeirydd y Pwyllgor Craffu Perthnasol.

Yn dilyn trafodaeth ac ymgynghoriad rhwng yr Aelod Cabinet a'r Cadeirydd Craffu, bydd yr Aelod Cabinet yn llunio ymateb i'r ddeiseb o fewn 20 diwrnod gwaith a fydd yn nodi'r camau gweithredu e.e eitem i'w thrafod mewn Pwyllgor Craffu.

Bydd y camau gweithredu yn cael ei nodi ar y wefan yn ogystal o fewn 5 diwrnod gwaith i'r ymatebiad gael ei anfon i'r Prif Ddeisebydd.

### Eithriadau

Yn y cyfnod yn union cyn etholiad neu refferendwm, efallai y bydd angen i ni ddelio â'ch deiseb yn wahanol. Os felly, byddwn yn esbonio'r rhesymau ac yn trafod unrhyw amserlen ddiwygiedig a allai fod yn berthnasol.

### Dewisiadau amgen i Ddeisebau

Ar ôl darllen y Cynllun Deisebau, efallai y bydd unigolyn neu sefydliad o'r farn nad deiseb yw'r ffordd fwyaf priodol o gyflawni'r canlyniad a ddymunir gennych. Mae'r opsiynau amgen i alluogi aelodau'r cyhoedd i ddweud eu dweud yn cynnwys:

a. Ysgrifennu at yr Aelod Cabinet neu'r Uwch Swyddog Priodol
b. Cysylltu â'ch Cynghorydd lleol
c. Ymateb i ymgynghoriad
d. Codi eich pryderon gyda'r gwasanaeth Craffu
e. Gwneud awgrym drwy wefan y Cyngor
f. Gofyn cwestiwn yn y Cyngor.

## Deddf Diogelu Data 1998 a GDPR

Bydd yr holl ddata personol yn cael ei drin yn unol â deddfau diogelu data a'n Polisi Preifatrwydd. Byddwn yn cadw copi caled a gwybodaeth electronig am ddeisebau am 12 mis ac ar ôl hynny caiff ei dinistrio'n ddiogel.

DRAFT

| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd |
| **DYDDIAD** | Tachwedd 2022 |
| **TEITL YR ADRODDIAD** | Darpariaeth Dysgu a Datblygu i Aelodau |
| **PWRPAS** | Rhoi diweddariad o'r ddarpariaeth *Dysgu a Datblygu* i Aelodau, gan amlygu llwyddiannau, sialensiau a datblygiadau |
| **ARGYMHELLIAD** | Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y trefniadau hyfforddiant presennol, ac awgrymu unrhyw deitlau neu gefnogaeth ychwanegol yr hoffent i'r tîm *Dysgu a Datblygu'r Sefydliad* ei ddarparu |
| **AWDUR** | Carey Cartwright (Rheolwr *Dysgu a Datblygu'r Sefydliad*) |

1. **TROSOLWG**

Mae wedi bod yn gyfnod o newid sylweddol a pharhaus o ran darpariaeth Dysgu a Datblygu. Roedd hyn yn bennaf oherwydd yr argyfwng Covid ble (fel y nodwyd mewn adroddiadau blaenorol) bu'n rhaid atal rhag cynnal unrhyw hyfforddiant wyneb i wyneb am gyfnod, a bu'n anorfod datblygu dulliau amgen e.e. hyfforddiant rhithiol (*'o bell'*). Cyfyngwyd y nifer o ddigwyddiadau a gynhaliwyd am beth amser, ond hefyd roedd y rhaglen ddysgu yn ysgafnach wrth ddod i ddiwedd y tymor etholiadol.

Bu cynllunio manwl i baratoi rhaglen ar gyfer y tymor etholiadol newydd gyda sesiynau anwytho cynhwysfawr a chyfres o ddigwyddiadau (yn cychwyn gyda'r blaenoriaethau uchaf) yn ei dilyn.

Yn hanesyddol, darparwyd rhaglen ddatblygol lawn yn cynnwys sesiynau hyfforddiant ac elfennau datblygol eraill megis gweithdai, cymhelliant (*coaching*), mentora ac e-ddysgu, yn ogystal â rhaglen ar gyfer datblygu'r Arweinyddiaeth. Erbyn hyn rydym eto'n cynnig digwyddiadau hyfforddi wyneb i wyneb wedi eu cydbwyso gyda digwyddiadau rhithiol ('o bell') er mwyn gallu cynnig yr un ystod o gyfleoedd datblygol.

Rydym wedi ymgynghori'n fanwl ar gynnwys ac arddull dysgu'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer 2022/23, er mwyn cynnig amrywiaeth briodol o deitlau perthnasol o ansawdd uchel.

Llwyddiant y rhaglen yw cefnogi Aelodau Etholedig i gyflawni eu rôl yn effeithiol, ac mae'r rhaglen yn cynnwys teitlau *craidd* (sy'n cael eu hadnabod gan Swyddogion yn bennaf) a theitlau *datblygol* ble mae cyfle i Aelodau ystyried eu hanghenion dysgu a datblygu personol eu hunain.

2. **DIGWYDDIADAU DATBLYGOL**

**2.1 Rhaglen Hyfforddiant**

Mae rhaglen hyfforddiant 2022-23 (Atodiad 1) yn nodi'r amrediad o ddigwyddiadau datblygol a gynhaliwyd ers Mai 2022 hyd at y presennol (ac ymlaen at ddiwedd Mawrth 2023).

Gwelir bod rhaglen brysur o ddigwyddiadau gyda ffocws gychwynnol ar hyfforddiant sy'n allweddol ar gyfer cyflawni rôl e.e. **Y Cod Ymddygiad, Rhiantu Corfforaethol,** ar gyfer eistedd ar bwyllgorau penodol e.e. **Hyfforddiant i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio,** ac hefyd teitlau megis **Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol** sy'n cyfarch iechyd a lles Aelodau. Hoffem bwysleisio pwysigrwydd mynychu sesiynau, yn arbennig teitlau craidd e.e. **Cydraddoldeb**.
Mae niferoedd mynychu wedi bod yn amrywiol iawn, er ein bod yn cynnig dewis o ddyddiadau er mwyn rhoi hyblygrwydd. Mynychodd nifer fawr o Aelodau'r sesiwn **Categoreiddio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg**, ond mae'r ymateb yn siomedig i rai teitlau eraill e.e. **Diogelu Plant ag Oedolion** – gyda dim ond 12 wedi cofrestru i'r sesiwn ar 9fed o Dachwedd ac 8 ar 16eg o Dachwedd. (Rydym yn deall bod y Cyngh. Elin Walker Jones yn bwriadu anfon neges i nodi pwysigrwydd yr hyfforddiant Diogelu, er mwyn deall y gwaith cefndirol allweddol sy'n digwydd yn yr Adran.)

Dylid nodi bod cynnwys yr hyfforddiant **Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol** dan ofal Catrin Love wedi ei addasu yn sgil y sefyllfa sydd ohoni. Hoffem annog pob Aelod na fynychodd un o'r sesiynau cyntaf i wneud pob ymdrech i fynychu'r rhai sydd wedi eu rhaglennu at fis Ionawr 2023.

Mae'n bwysig rhannu'r neges eto bod y sesiynau hyfforddi yn cael eu cynnig am reswm h.y. helpu Aelodau i gyflawni eu rôl yn fwy effeithiol pan yn cynrychioli eu hetholwyr. Dylid nodi eu bod yn gyfle i Aelodau sydd wedi dychwelyd, adnewyddu sgiliau a gwybodaeth ('refreshers'), ac hefyd yn dysgu am y gwaith diweddaraf sy'n mynd ymlaen yn yr Adrannau.

**2.2 Cymhelliant a Mentora**

Mae sesiynau cymhelliant a mentora yn parhau i fod ar gael, gyda sawl Aelod yn manteisio arnynt.

3. **<u>EDRYCH I'R DYFODOL</u>**

**3.1 Teitlau Datblygol**

Gellir gweld o'r rhaglen (Atodiad 1) bod rhaglen gynhwysfawr yn ei lle.
Yn ogystal â'r rhaglen uchod, datblygir sesiynau ychwanegol mewn ymateb i ofyn. Un esiampl yw hyfforddiant **Cyfryngau Cymdeithasol** a fydd yn cynnwys *defnyddio gwefannau cymdeithasol* gyda ffocws ar yr egwyddorion sylfaenol, a'r hyn i'w wneud/peidio ei wneud yn sgil bwlio ayyb. Mae hyn wedi codi gan nifer o'r Aelodau mewn sgwrs dros baned. Bydd gwahoddiad yn mynd allan unwaith y byddwn wedi cytuno ar fanylion y cynnwys a threfniadau ymarferol gyda'r darparwr.

**3.2 Datblygu'r Arweinyddiaeth**

Mae'r Cabinet wedi ymrwymo i raglen ddatblygol i uchafu ei effeithiolrwydd fel arweinyddion unigol ac fel tîm.

**3.3 Adolygiadau Datblygu Personol**

Bydd gwahoddiad i Aelodau fanteisio ar sesiwn adolygiad personol gydag arbenigwr Dysgu a Datblygu, i drafod eu hanghenion hyfforddiant/datblygol a llunio rhaglen ddatblygol bersonol. Gallai hyn fod o ddiddordeb arbennig i Aelodau newydd. Bydd y gwahoddiad yn cael ei anfon at Aelodau i'w hysbysu o'r trefniadau maes o law.

4. **HERIAU**

**4.1 Niferoedd Mynychu**

Fel y nodwyd yn 2.1 mae niferoedd mynychu (hyd yn oed gydag opsiynau technolegol) wedi bod yn siomedig ar gyfer rhai o'r teitlau, ac bod angen eto pwysleisio'r budd a manteision personol.

**4.2 Defnyddio Technoleg i Ddarparu Hyfforddiant**

Er nad yw'r arddull dysgu rhithiol ('o bell') yr un mor effeithiol i bawb, mae'r dechnoleg wedi datblygu ac esblygu yn aruthrol yn y blynyddoedd diwethaf, gan wella profiadau dysgu ac uchafu ei effeithiolrwydd. Mae dysgu rhithiol ('o bell') wedi sefydlu ei hun erbyn hyn, a bydd yn elfen allweddol o bob rhaglen dysgu a datblygu (ochr yn ochr gyda dysgu 'traddodiadol') yn y dyfodol. Mae manteision amlwg o ran mynediad 'unrhyw amser - unrhyw le' i'r dysgu (os yw'r dechnoleg yn caniatáu), ac mae hefyd yn lleihau amser teithio i Aelodau yn ogystal â chyfrannu at yr agenda gwyrdd drwy dorri ar filltiroedd teithio.

Rydym wedi arbrofi gyda recordio fideo o sesiynau dysgu (fersiynau Cymraeg a Saesneg) fel bod Aelodau'n medru edrych yn ôl arnynt, neu'n medru cael mynediad atynt os nad oeddent wedi medru mynychu'r sesiwn 'byw'. Tra bo'r recordiadau yn adnodd hwylus 'wrth gefn' - ni ddylent gymryd lle'r sesiynau byw. Gall hyn hefyd achosi problem o ran cofnodi, gan nad oes tystiolaeth bod unigolyn yn bresennol am y sesiwn cyfan.

Pwynt arall yw cyfraniadau / ymgysylltiad mewn sesiynau, gyda nifer o Aelodau yn mynychu heb droi camerâu ymlaen. Dylid nodi bod hyn yn anodd i hyfforddwyr gan na fedrent weld nac asesu ymateb, ac mae hefyd yn fater o gwrteisi a pharch i'r sawl sy'n cyflwyno. Felly hoffem nodi pwysigrwydd cael camerâu ymlaen yn ystod y sesiynau.

**4.3. Casglu Adborth – Mesur Effaith**

Mae casglu adborth wedi sesiwn hyfforddi yn eithriadol o bwysig i ni fel Gwasanaeth er mwyn dysgu a gwella ein darpariaeth yn barhaus. Gofynnir i Aelodau gwblhau'r ffurflen adborth yn dilyn pob sesiwn datblygol. Mae modd gwneud hyn yn electroneg (neu drwy ddulliau eraill), ac hoffem annog pob aelod i rannu sylwadau ac awgrymiadau.

**4.4 Ymateb y Gwasanaeth Dysgu a Datblygu'r Sefydliad**

- Parhau i gasglu tystiolaeth am rwystrau i Aelodau fanteisio ar gyfleoedd datblygol er mwyn cynyddu niferoedd mynychu
- Parhau i ddatblygu'r arddull dysgu rhithiol ('o bell') a threialu meddalwedd/technegau newydd
- Monitro defnydd o recordiadau fideo sesiynau dysgu er mwyn sicrhau nad yw'n cael ei weld fel rhywbeth sy'n cymryd lle mynychu sesiynau 'byw'
- Cefnogi Aelodau i gael mynediad rhwydd i ddysgu trwy dechnoleg
- Gwahodd Aelodau i amlygu 'bylchau' yn y ddarpariaeth Dysgu
- Teilwrio rhaglenni dysgu i anghenion unigolion a grwpiau
- Cynnig cefnogaeth ymgynghorol bersonol i lunio rhaglenni unmigol (Adolygiadau Datblygu Personol)
- Darparu profiadau dysgu gwerthfawr

**<u>5. RHAGLEN HYFFORDDIANT 2022/23</u>**

Mae'r rhaglen hyfforddiant ar gyfer 2022/23 yn parhau i esblygu. (Atodiad 1)**.**

Mae'r teitlau yn rhaglen yn seiliedig ar:-

- Awgrymiadau gan Swyddogion ac Adrannau am eu meysydd arbenigol
- Awgrymiadau gan Aelodau (meysydd ar gyfer datblygiad personol yn ogystal â grwpiau)

***Gwahoddir y Pwyllgor i ystyried y rhaglen bresennol a chynnig awgrymiadau am feysydd/teitlau ychwanegol i'w cynnwys.***
***Gwahoddir y Pwyllgor hefyd i ystyried trefniadau hyfforddiant ac awgrymu unrhyw gefnogaeth ychwanegol fuasai'n galluogi Aelodau i fanteisio ar gyfleoedd datblygol, a'u hannog i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.***

# RHAGLEN DATBLYGU AELODAU ETHOLEDIG

# ELECTED MEMBERS' DEVELOPMENT PROGRAMME

# 2022/23

ATODIAD 1

| Dyddiad ac amser / *Date and time* | | Digwyddiad / *Event* | Dull Dysgu / Learning Method | Arweinwyr / *Leaders* |
|---|---|---|---|---|
| Mai 10 + 11 May | | Diwrnod Croeso / Welcome Day | Hybrid | Amrywiol |
| **Mai 30 May** | **(10:00 – 11:00)** | **Cyflwyniad i Gynllunio / Introduction to Planning (Holl Aelodau / All Members)** | **Rhithiol / virtual** | **Gareth Jones/Keira Sweeney/Rebeca Jones** |
| **Mehefin 6 June** | **(2:00 – 3:00)** | **Hyfforddiant i Aelodau'r Pwyllgor Cynllunio / Planning Commitee Members Training** | **Rhithiol / Virtual** | **Gareth Jones/Keira Sweeney/Rebeca Jones** |
| **Mehefin 8 June** | **(10:00 – 11:00)** | **Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi / Information about People : Your Responsibility** | **Rhithiol / Virtual** | **Helen Mary Parry (Rheolwr Gwybodaeth / Information Manager)** |
| **Mehefin 9 June** | **(10:00 – 12:30)** | **Y Cod Ymddygiad / The Code of Conduct** | **Rhithiol / virtual** | **Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Head of Legal Service)** |
| Mehefin 22 June | (10:00 – 11:00<br>(14:00 – 15:00) | Cyflwyniad i Opsiynau Tai Gwynedd / Introduction to Gwynedd Housing Options | Rhithiol / virtual | Swyddogion Amrywiol (Tai ac Eiddo) |
| Mehefin 29 June | (10:00 – 12:30) | Hyfforddiant i Aelodau'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio / Training for the Governance & Audit Committee Members<br><br>Cyflwyniad i Ddigartrefedd / Introduction to Homelessness | Rhithiol / Virtual | Dewi Morgan / Luned Fon Jones |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mehefin 30 June | (10:00 – 11:00)<br>(16:00 – 17:00) | | Rhithiol / virtual | Swyddogion Amrywiol (Tai ac Eiddo) |
| Gorffennaf 7 July | (10:00 – 11:00)<br>(16:00 – 17:00) | Cyflwyniad i'r Cynllun Gweithredu Tai / Introduction to the Housing Action Plan | Rhithiol / virtual | Swyddogion Amrywiol (Tai ac Eiddo) |
| **Gorffennaf 13 July** | **(10:00 – 12:30)**<br>**(2:00 – 4:30)** | **Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb / Your Responsibility for Equality** | **Rhithiol / Virtual** | Delyth Gadlys Williams |
| **Gorffennaf 25 July** | **(4:00 – 5:00)** | Gofal Cartref – Diweddariad ar y model Newydd<br>Home Care – Update on the new model | Rhithiol / Virtual | Meilys Haulfryn Smith, Sian Wyn Griffiths |
| **Medi 8 September** | **(2:00 – 3:30)** | **Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol / Safe Leadership & Personal Safety (Sesiwn dwyieithog / bilingual session)** | **Rhithiol / virtual (Zoom)** | Catrin Love (Ymgynghorydd Iechyd Diogelwch a Lles / Health, Safety & Wellbeing Consultant) |
| Medi 9 September | (10:00 – 11:00) | Cadeirio Pwyllgorau Craffu – Agweddau Cyfreithiol / Chairing Scrutiny Committees – Legal Aspects) | Rhithiol / virtual | Sion Huws |
| **Medi 14 September** | **(2:00 – 4:30)** | **Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb / Your Responsibility for Equality** | **Rhithiol / virtual** | Delyth Gadlys Williams |
| **Medi 21 September** | **(10:00 – 12:30)** | **Y Cod Ymddygiad / The Code of Conduct** | **Rhithiol / virtual** | Iwan Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol / Head of Legal Service) |
| **Medi 28 September** | **(2:00 – 3:00)** | **Gwybodaeth am Bobl : Eich Cyfrifoldeb Chi / Information about People : Your Responsibility** | **Rhithiol / virtual** | **Helen Mary Parry** |
| **Medi 29 September** | **(2:00 – 3:30)** | **Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol / Safe Leadership & Personal Safety (Sesiwn Cymraeg / Welsh medium session)** | **Rhithiol / virtual (Teams)** | **Catrin Love** |
| Hydref 5 October | (1:30 – 3:30) | Categoreiddio Ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg / Categorising Schools according to the Welsh language provision | Rhithiol / virtual | Debbie Williams-Jones |
| Hydref 10 October | (2:00 – 3:30) | | Rhithiol / virtual | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Hydref 12 October (10:00 – 11:30) | Polisi Cynllunio a'r Cynllun Datblygu Lleol / Planning Policy & the Local Development Plan | | Gareth Jones a Rebeca Angharad Jones |
| **Hydref 12 October (2:00 – 3:00)**<br>**Hydref 27 October (10:00 – 11:00** | **Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol / Future Generations Wellbeing Act** | **Rhithiol / virtual** | **Dewi Wyn Jones a Sandra Thomas** |
| Hydref 19 October (2:00 – 3:30) | Ffordd Gwynedd | Rhithiol / virtual | Dafydd Gibbard (Prif Weithredwr/Chief Executive) |
| **Tachwedd 9 November (10:00 – 11:00)**<br>**Tachwedd 16 November (2:00 – 3:00)** | **Diogelu Plant ac Oedolion / Safeguarding Children & Adults** | **Rhithiol / virtual** | **Dafydd Paul / Mannon Trappe** |
| Tachwedd 11 November (10:00 – 11:30) | Ffordd Gwynedd | Rhithiol / virtual | Geraint Owen a Carey Cartwright |
| Tachwedd 11 November (1:00 – 2:30) | Hyfforddiant i'r Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio – Y Broses Gwynion \| The Complaints Procesure – Training for the Governance & Audit Committee | Rhithiol / Virtual | Matthew Harris (Ombudsman) |
| Tachwedd 22 November (1:30 – 4:30) | Amrywiaeth mewn Democratiaeth i Ferched/ Diversity in Democracy for Women | Rhithiol / Virtual | Dr Jessica Laimann<br>Swyddog Polisi a Materion Cyhoeddus<br>Women's Equality Network (WEN) Wales / Rhwydwaith Cydraddoldeb Menywod (RhCM) Cymru |
| **Tachwedd 24 November (10:00 – 11:00)**<br>**(3:00 – 4:00)** | **Rhiantu Corfforaethol / Corporate Parenting** | **Rhithiol / virtual** | **Marian Parry Hughes / Aled Gibbard** |
| I'w gadarnhau / To be confirmed<br>Rhagfyr 6 December (1:30 – 3:00)<br>Rhagfyr 15 December (10:00 – 11:30) | Gwneud i Gyfryngau Cymdeithasol weithio i Gynghorwyr / Making Social Media work for Councillors | I'w gadarnhau / To be confirmed | I'w gadarnhau / To be confirmed |
| Rhagfyr 14 December (10:00 – 11:00)<br>Rhagfyr15 December (3:30 – 5:00) | Safle Treftadaeth y Byd / World Heritage Site | Rhithiol / virtual | Rebeca Angharad Jones / Roland Evans |
| Ionawr 11 January 2023 (10:00 – 11:30) | Anwytho Llywodraethwyr Newydd / New Governors Induction | Rhithiol / virtual | Buddug Mair Huws |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Ionawr 12 a 13 January 2023 (9:30 – 4:30) | Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl / Mental Health First Aid | Wyneb i Wyneb (Ystafell LLYFNI Room, Caernarfon) | Bethan Roberts |
| I'w gadarnhau / To be confirmed<br>Ionawr 19 January (10:00 – 11:30) | I'w gadarnhau / To be confirmed<br>Gwneud i Gyfryngau Cymdeithasol weithio i Gynghorwyr / Making Social Media work for Councillors | I'w gadarnhau / To be confirmed | I'w gadarnhau / To be confirmed |
| **Ionawr 25 January (1:30 – 4:00)<br>(5:30 – 8:00)** | **Eich Cyfrifoldeb dros Gydraddoldeb / Your Responsibility for Equality** | **Rhithiol / Virtual** | **Delyth Gadlys Williams** |
| **Chwefror 1 February 2023 (1:30 – 3:00)<br>(5:30 – 7:00)** | **Arwain yn Ddiogel a Diogelwch Personol / Safe Leadership & Personal Safety** | **Rhithiol / Virtual** | **Catrin Love** |
| Chwefror 8 February 2023 (10:00 – 11:30)<br>Chwefror 9 February 2023 (3:30 – 5:00) | Trefniadau Cwynion Ysgol – y gwahanol fathau o gwynion, pa Bolisi sy'n berthnasol a sut mae delio â nhw / School Complaints Procedures – the different types of complaints, what Policies are appropriate and how to deal with them. | Rhithiol / Virtual | Buddug Mair Huws |
| Mawrth / Ebrill 2023 (I'w gadarnhau / To be confirmed) | Arwain Newid yn y Gymuned / Leading Change in the Community | Rhithiol / Virtual | Carey Cartwright & Ffion Bryn Jones |
| Mawrth / Ebrill 2023 (I'w gadarnhau / to be confirmed) | Deall Egwyddorion Ffordd Gwynedd / Understanding the principles of Ffordd Gwynedd | Rhithiol / Virtual | Geraint Owen & Carey Cartwright |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad y cyfarfod** : | 17 Tachwedd 2022 |
| **Pwnc** | Adroddiad Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol |
| **Argymhelliad** | Gofynnir i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am<br>• sylwadau ar gyfer llunio ymateb i ymgynghoriad adroddiad drafft Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.<br>• Sylwadau ar y trefniadau i adolygu uwch gyflogau |
| **Swyddog Cyswllt:** | Vera Jones,<br>Rheolwr Democratiaeth ac Iaith |

**Beth yw'r cefndir ac ystyriaethau perthnasol?**

1. Mae 'r Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol yn cyhoeddi adroddiad drafft ym mis Hydref yn flynyddol. Mae'n amlinellu'r bwriad ar gyfer y flwyddyn ariannol ganlynol. Cyhoeddwyd y drafft ym mis Hydref 2022 yn amlinellu'r newidiadau a fwriedir ar gyfer blwyddyn Ariannol 2023-24. Mae cyfle i ymateb i'r argymhellion sy'n cael eu cyflwyno erbyn 1af o Ragfyr, 2022.

2. Bydd y newidiadau drafft, petaent yn dod i rym yn cael eu cyhoeddi erbyn 28 Chwefror 2023 ac yn weithredol ar gyfer blwyddyn Ariannol 2023-24.

**Rôl y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol**

3. Cyfrifoldeb y Panel yw gosod lefelau cyflogau Cynghorwyr Cymru, ac mae eu rôl yn hollol annibynnol. Ers ei sefydlu, mae'r Panel wedi mynegi'n gyson ac yn gadarn nad yw democratiaeth leol a llywodraethu gwasanaethau cyhoeddus yn ddi-gost a bod angen rhoi gwerth iddynt os ydym am alluogi i bawb gymryd rhan. Mae'n bwysig hyrwyddo diwylliant sy'n annog unigolion i dderbyn cydnabyddiaeth tâl i sicrhau y gall pobl o bob rhan o gymdeithas gymryd rhan yn hyderus yn ein democratiaeth.

4. Yn ogystal, mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Panel ystyried goblygiadau ariannol ei benderfyniadau. Mae'r Panel wedi gofod ceisio cydbwyso y ddwy elfen ochor yn ochor yn flynyddol wrth wneud ei benderfyniadau.

5. Mae'r Panel wedi nodi fod eleni'n flwyddyn o atgyfnerthu. "*Cafodd newidiadau mawr eu rhoi ar waith y llynedd, a chytunwyd ar godiad sylweddol yn lefelau cyflog. Hoffem ganiatáu amser i Benderfyniadau'r llynedd ymwreiddio ac i ganiatáu i'r Panel barhau i ddatblygu sylfaen*

*ymchwil a thystiolaeth i lywio penderfyniadau'r dyfodol a symud i gylch cynllunio mwy hirdymor. Mae'r adroddiad hwn yn adlewyrchu'r penderfyniad hwnnw*."

**Prif Benderfyniadau'r Panel**

6. Mae copi llawn o'r adroddiad ar ei ffurf drafft i'w gael ar y ddolen isod. [Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol: adroddiad blynyddol 2023 i 2024 [HTML] | LLYW.CYMRU]

   Tâl ar gyfer Aelodau etholedig.

7. Mae'r cyflog sylfaenol, sy'n cael ei dalu i bob aelod etholedig, yn dâl am y cyfrifoldeb o gynrychioli'r gymuned a chymryd rhan yn y gwaith craffu, rheoleiddio a swyddogaethau cysylltiedig llywodraethu lleol. Mae'n seiliedig ar swm sydd gyfwerth â thri diwrnod llawn yr wythnos. Mae'r Panel yn adolygu'r ymrwymiad amser hwn yn rheolaidd, ac ni chynigir unrhyw newidiadau ar gyfer 2023 i 2024.

8. Mae'r Panel wedi penderfynu, ar gyfer blwyddyn ariannol 1 Ebrill 2023 i 31 Mawrth 2024, ei fod yn iawn i gadw cysylltiad rhwng cyflog sylfaenol cynghorwyr a chyflogau cyfartalog eu hetholwyr.

9. Y cyflog sylfaenol fydd **£17,600**. Bydd hyn yn gynnydd o 4.76% yn y cyflog sylfaenol.

10. Yn gynnar y flwyddyn nesaf bydd y Panel yn casglu tystiolaeth gan y prif gynghorau i archwilio a yw'r llwyth gwaith aelodau etholedig wedi newid a sut y mae wedi newid.

    Uwch Gyflogau ar gyfer Aelodau etholedig.

11. Er i'r ffiniau newid mewn rhai awdurdodau a'r niferoedd Cynghorwyr hefyd newid yn sgil hynny, mae'r Panel wedi penderfynu peidio newid y niferoedd o uwch Gyflogau y gellir eu pennu yn yr awdurdodau unigol. 18 yw'r uchafswm o uwch gyflogau y gellir eu talu i awdurdodau Grwp B, sy'n cynnwys Cyngor Gwynedd.

12. Mae'r tabl isod yn dangos manylion taliadau Grwp B ar gyfer 2023-24.

| | Tâl Cydnabyddiaeth |
|---|---|
| Cyflog sylfaenol (yn daladwy i bob aelod etholedig) | £17,600 |
| Band 1: arweinydd | £59,400 |
| Band 1: dirprwy arweinydd | £41,580 |

| | |
|---|---|
| Band 2: aelodau gweithredol | £35,640 |
| Band 3: cadeiryddion pwyllgorau (os ydynt yn cael tâl cydnabyddiaeth) | £26,400 |
| Band 4: arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf | £26,400 |
| Band 5: arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill | £21,340 |

13. Nid yw swyddi'r pennaeth dinesig a'r dirprwy bennaeth dinesig wedi'u cynnwys yn y cap. Mae penaethiaid dinesig yn uwch-swyddi mewn cynghorau sy'n wahanol i arweinyddiaeth wleidyddol neu weithredol. Yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd pwysig, y pennaeth dinesig yw 'dinesydd cyntaf' a 'llysgennad' yr awdurdod, gan gynrychioli'r cyngor wrth ymwneud â phob math o sefydliadau a chyrff.

14. Penderfyniad i'r Cyngor yw talu'r gydnabyddiaeth am y rolau hyn. Mae'r lefel wedi ei osod ar gyfer 2023/24 fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| Pennaeth Dinesig | £26,400 |
| Dirprwy Bennaeth Dinesig | £21,340 |

<u>Costau eraill</u>

15. Nid oes unrhyw newidiadau pellach i'r taliadau a'r buddiannau a dalwyd i aelodau etholedig ac felly mae pob Penderfyniad arall o 2022 i 2023 yn dal i sefyll a dylid eu cymhwyso yn 2023 i 24, gan gynnwys y rhai sy'n cwmpasu:

- teithio a chynhaliaeth
- gofal a chynhorthwy personol
- absenoldeb salwch
- cyd-bwyllgorau corfforaethol
- cynorthwywyr i'r weithrediaeth
- cyflogau ychwanegol a threfniadau rhannu swyddi
- Aelodau cyfetholedig

16. Dylid hefyd nodi fod yr adroddiad yn cyfeirio ar faterion yn ymwneud â Chynghorau Tref a Cymuned ond ni ymhelaethir ar hynny yn yr adroddiad hwn.

<u>Adolygu Cyfrifoldebau Cadeiryddion Pwyllgorau</u>

17. Yng nghyfarfod Blynyddol y Cyngor ar 19 Mai 2022 mabwysiadwyd y rhestr isod o uwch-gyflogau ar gyfer 2022/23.

- Arweinydd
- Dirprwy Arweinydd
- Hyd at 8 aelod arall o’r Cabinet 3
- Arweinydd yr Wrthblaid fwyaf *
- Cadeiryddion Pwyllgorau:

o Pwyllgorau Craffu (x3)
o Pwyllgor Cynllunio
o Pwyllgor Trwyddedu (mae’r pwyllgor Trwyddedu Canolog a Chyffredinol yn cael ei drin fel un pwyllgor)
o Pwyllgor Pensiynau

18. Yn sgil y newidiadau gyda phenodi Aelod Lleyg yn Gadeirydd y Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio, 17 o’r 18 uwch gyflog sydd wedi eu neilltuo ar gyfer 2022/23 a gofynwyd i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth adolygu ar gyfer 2023/24.

19. Mae’n debygol mai’r ffordd mwyaf synhwyrol o adolygu cyfrifoldebau Cadeiryddion Pwyllgorau yw ceisio asesu y pwysau gwaith sy’n dod yn sgil y rôl benodol.  Dros y misoedd nesaf felly byddaf yn holi’r swyddogion sydd â chyfrifoldeb am brif bwyllgorau’r Cyngor i amlinellu cyfrifoldebau/gofynion ar y Cadeiryddion (mewn ymgynghoriad â’r Cadeiryddion) gan adrodd ar y canlyniadau i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth ar 16 Mawrth 2023 er mwyn llunio argymhelliad i gyfarfod blynyddol y Cyngor llawn ar y 4ydd o Fai, 2023.  Mae tabl drafft i’w weld yn Atodiad A.

**Argymhelliad**

20. Gofynnir i’r Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth am

- sylwadau ar gyfer llunio ymateb i ymgynghoriad adroddiad drafft Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol.
- Sylwadau ar y trefniadau i adolygu uwch gyflogau

**ATODIAD A**

CYFRIFOLDEBAU CADEIRYDDION PWYLLGORAU 2022/23

| PWYLLGOR | CYFARFODYDD - rhaglenwyd | CYFARFODYDD - Cynhlaiwyd | CYFRIFOLDEBAU YCHWANEGOL |
|---|---|---|---|
| Pwyllgor Craffu Addysg Ac Economi | | | |
| Pwyllgor Craffu Cymunedau | | | |
| Pwyllgor Craffu Gofal | | | |
| Pwyllgor Trwyddedu Canolog/Cyffredinol | | | |
| Pwyllgor Cynllunio | | | |
| Pwyllgor Pensiynau | | | |
| Pwyllgor Apelau Cyflogaeth | | | |
| Pwyllgor Gwasanaethau Democratiaeth | | | |
| CYSAG | | | |
| Pwyllgor Iaith | | | |
| Cadeirydd/is-gadeirydd y Cyngor | | | |